Ai yw Prydain yn Decach?

—

Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018

Crynodeb gweithredol

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Ai yw Prydain yn Decach?

—

Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018

Crynodeb gweithredol

Crynodeb gweithredol

Ein hadroddiad ‘Ai yw Prydain yn Decach? 2018’ yw’r adolygiad mwyaf cynhwysfawr o sut ydyn ni, fel cenedl, yn perfformio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Gan edrych ar draws pob agwedd ar fywyd, yn cynnwys addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch, a chyfranogiad mewn cymdeithas, mae’n darparu darlun cyflawn o gyfleoedd bywyd pobl ym Mhrydain heddiw.

Ac er y cafwyd rhywfaint o gynnydd – fel gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol, ymwneud mewn gwleidyddiaeth a chyfleoedd cyfartal yn y gweithle – mae yna heriau difrifol sy'n dal angen eu taclo parthed mynediad at gyfiawnder, troseddau casineb ac aflonyddu rhywiol.

Mae tlodi plant wedi cynyddu ac mae'r anghydraddoldeb yn deilio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar sawl rhan o fywydau rhai. Mae menywod yn dal ddim yn manteisio ar gydraddoldeb yn ymarferol ac mae yna fylchau cynyddol fawr rhwng profiadau a deilliannau pobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig a'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r anfanteision cyson mae'r mwyafrif o grwpiau mewn perygl hyn yn wynebu yn creu pryderon arwyddocaol fod rhai pobl yn cael eu hanghofio neu adael ar ôl.

Mae hyn oll o fewn cyd-destun gostyngiadau tymor hir i wariant y cyhoeddus, cynnydd mewn achosion o droseddau casineb, ac ansicrwydd parhaus ynghylch effaith gadael yr UE.

Pam ydyn ni wedi gwneud hyn, ac ar gyfer pwy?

Mae gennym ddyletswydd statudol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i adrodd i'r Senedd ar i ba raddau mae pawb yn byw ym Mhrydain yn gallu byw yn rhydd o wahaniaethu a throseddau yn erbyn eu hawliau dynol. Yma rydym nid yn unig yn ateb y cwestiwn 'Ai yw Prydain yn Decach?' ers ein hadolygiad diwethaf yn 2015, ond hefyd yn darparu argymhellion clir ar gyfer newid. Rydym eisiau i'r adroddiad hwn osod yr agenda ar gyfer llunwyr polisi a dylanwadwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o sectorau, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynnydd cymdeithasol ym Mhrydain.

Mae 'Ai yw Prydain yn Decach?' hefyd yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i hysbysu ein blaenoriaethau ein hunain ar gyfer y tair blynedd nesaf, i'w sefydlu yn ein Cynllun Strategol newydd. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau, rheolyddion, seneddwyr, cyflogeion y sector cyhoeddus a phreifat a sefydliadau anllywodraethol i bwyso am weithredu cydunol i weithredu ein hargymhellion, ac i ddefnyddio ein grymoedd unigryw ein hunain i ysgogi newid ble gallwn. Wrth wneud hyn, bydd gennym ffocws cryf ar y materion mwyaf brys, gan ddefnyddio'r amrediad llawn o'n pwerau i ysgogi cynnydd tuag at Brydain fwy teg cyn i ni adrodd eto. Rydym eisiau i bawb chwarae eu rôl, i sicrhau bod pethau wedi gwella'n arwyddocaol y tro nesaf y byddwn yn gofyn y cwestiwn 'Ai yw Prydain yn Decach?' yn 2021.

Erbyn 2021, bydd Prydain wedi gadael yr UE. Felly mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno golwg derfynol ar gydraddoldeb a hawliau dynol cyn i Brexit ddigwydd, gan ddarparu meincnod i fesur effeithiau'r newid pwysig hwn ar fywydau pobl.

Sut ydyn ni wedi mesur newid?

Rydym wedi defnyddio ein Fframwaith Mesur i gasglu a dadansoddi'r dystiolaeth fwyaf cadarn a pherthnasol, ac i fonitro cynnydd mewn modd cyson, gan ein galluogi i fesur newid dros gyfnod o amser. Mae'r Fframwaith yn cynnwys cyfres o 'ddangosyddion' – mae'r rhain yn ein galluogi i asesu'r elfennau o fywyd sy'n bwysig i ni, yn cynnwys bod yn iach, cael addysg dda a chael safon byw digonol. Rydym wedi edrych ar bynciau penodol o fewn pob dangosydd, fel bwlio yn yr ysgol, trais domestig a disgwyliad oes. Ar gyfer pob u o'r rhain, rydym wedi casglu gwybodaeth ar gyfraith, polisi a phrofiadau bywyd pobl, yn defnyddio amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol, ac yn dadansoddi'r data yn ôl 'nodweddion gwarchodedig' y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymchwil a gyhoeddwyd wedi 31 Mai 2018, ac ychydig iawn o ddata cyn 2015.

Roedd yna fwy o fenywod, pobl dduon a Phacistanaidd mewn gwaith, mwy o bobl – yn cynnwys menywod – mewn galwedigaethau cyflog uwch, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lleihau.

Beth ydyn ni wedi ei ddarganfod?

Camau yn y cyfeiriad cywir

Ar y cyfan, rydym wedi canfod rhai gwelliannau mewn addysg, cyfranogiad gwleidyddol a gwaith. Mae mwy o blant a oedd yn tanberfformio yn yr ysgol nawr yn cyflawni'r safonau gofynnol, ac mae llai o wahaniaethau mewn rhai sy'n mynychu'r brifysgol rhwng grwpiau yn rhannu rhai nodweddion gwarchodedig. Roedd yna fwy o fenywod, pobl dduon a Phacistanaidd mewn gwaith, mwy o bobl – yn cynnwys menywod – mewn galwedigaethau cyflog uwch, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lleihau.

Mae pobl hefyd yn cymryd rhan mwy mewn gwleidyddiaeth, gyda mwy o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau diweddar. Mae rhai un ar bymtheg ac 17 oed nawr yn gallu pleidleisio mewn etholiadau yn yr Alban ac mae hefyd yn cael ei ystyried yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus a phreifat yn cael eu darparu'n ddigidol, ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan bobl anabl a phobl hŷn, gan helpu sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys fwy.

Anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae'r darlun dal yn llwm o ran safonau byw'r bobl dan y risg mwyaf a grwpiau 'anghofiedig' Prydain, sydd mewn perygl o gael eu hunain yn eu sefyllfa bresennol am flynyddoedd i ddod.

Ychydig iawn mae tlodi wedi newid ac i blant mae wedi cynyddu; mae'n arbennig o gyffredin ymysg pobl anabl ac i rai lleiafrifoedd ethnig. Yn unol â'n hadroddiad yn 2015, mae diwygiadau ledled y Deyrnas Unedig i les a threthiant ers 2010 yn parhau i gael effaith anghymesur ar y tlotaf mewn cymdeithas. Mae'r diwygiadau hyn yn tynnu mwy o bobl – yn arbennig pobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig a menywod – i dlodi, gan wanhau'r rhwyd ddiogelwch a ddarparwyd gan nawdd cymdeithasol sy'n allweddol i'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio, neu sy'n cael eu hunain mewn gwaith ansicr. Er gwaethaf lefelau cyflogaeth cynyddol, yn gynyddol nid yw gwaith yn rhoi sicrwydd o safon byw digonol. Mae digartrefedd hefyd yn cynyddu, gan roi mwy o bobl mewn sefyllfa ansicr ac yn effeithio ar leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a grwpiau eraill dan risg yn arbennig.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ddilynol ar draws gwahanol feysydd bywyd, megis addysg ac iechyd. Er gwaethaf gwelliannau mewn cyrhaeddiad ysgolion i'r rhan fwyaf o blant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai o gefndiroedd incwm is a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael canlyniadau arholiadau ysgol is na'r cyfartaledd. Mae'r plant yma hefyd yn fwy tebygol o gael eu heithrio o'r ysgol, ac mae pobl ifanc mwy tlawd yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol. Fe gynyddodd marwoldeb plant, ble mae'r risg ohono yn cynyddu gydag amddifadedd, yn 2016 am y tro cyntaf mewn degawdau.

> Mae'r blwch cyflog anabledd yn parhau, gyda phobl anabl yn ennill llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl.

Rhai grwpiau yn cael eu hanghofio

Pobl anabl yn syrthio yn bellach fyth tu ôl

Nid yw pobl anabl yn mwynhau'r fath gynnydd ag y mae grwpiau eraill yn ei brofi. Nid yw eu hawl i addysg gynhwysol yn cael ei fodloni – yn wir, mae'r gyfran o blant anabl mewn ysgolion arbennig yn hytrach na phrif ffrwd wedi cynyddu yng Nghymru a Lloegr – ac maent yn fwy tebygol o gael eu heithrio o'r ysgol. Mae'r anfantais yma yn parhau yn hwyrach mewn bywyd. Mae'r blwch cyflog anabledd yn parhau, gyda phobl anabl yn ennill llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau sydd â chyflogau isel ac mae hyn yn gynyddol wir.

Mae pobl anabl hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi. Mae'r rhai sy'n methu gweithio yn dibynnu'n gynyddol ar gyfundrefn lles cyfyngedig y rhagwelir fydd yn lleihau eu safonau byw ymhellach fyth. Maent yn wynebu iechyd gwaeth a diffyg mynediad at dai addas. Mae diogelwch yn bryder mawr, gan fod gan lai o bobl anabl hyder fod y system cyfiawnder troseddol yn effeithiol.

Heb sylfaeni addysg da, safon byw digonol a bod yn ddiogel ac iach, mae pobl anabl yn aml yn methu cymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas.

Heriau i ddiogelwch a dilyniant gyrfa menywod

Mewn rhai ffyrdd mae cydraddoldeb mewn symud ymlaen yn arwyddocaol. Mae'r bwlch cyflogaeth a bwlch cyflog gyda dynion wedi lleihau, a'r nifer o fenywod mewn galwedigaeth sydd â chyflog uwch ac wedi eu cynrychioli ar fyrddau cwmnïau wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid yw cydraddoldeb rhyw llawn wedi ei gyflawni eto, ac mae yna lawer gormod o ffactorau yn dal menywod yn ôl yn y gwaith o hyd – gyda rhai ohonynt yn deillio o ystrydebau am y rhywiau ac yn deillio o'r ysgol neu'n gynharach. Er enghraifft, gellir gweld gwahaniaethau rhyw mewn dyheadau gyrfa o oed cynnar. Mae hyn yn rhaeadrau i addysg uwch, ble mae menywod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y rhan fwyaf o gyrsiau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, er bod merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn addysg. Mae didoliad rhwng rhywiau hefyd yn amlwg mewn prentisiaethau ac mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu i'r ffaith fod menywod yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau cyflog isel.

Mae bwlio ac aflonyddu rhywiol yn gyffredin yn y gweithle, ac mae tri chwarter o famau newydd wedi cael profiad negyddol neu wahaniaethol posibl yn y gwaith o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth. Mae'r profiadau negyddol hyn a'r anghydraddoldebau yr ydym yn parhau i'w gweld yn pwyso'n drwm ar ystrydebau a dehongliadau o fenywod a merched, ac i'w gweld yn amlwg o ran sut maent yn cyfyngu ar ddewisiadau a chyfleoedd menywod.

Rhai lleiafrifoedd ethnig yn syrthio tu ôl

Mae pobl o rai lleiafrifoedd ethnig, fel pobl Indiaidd a Tsieineaidd, wedi parhau i lwyddo mewn addysg a gwaith, ac i eraill cafwyd gwelliannau nodedig yn y meysydd hyn o fywyd. Fodd bynnag, mae pobl Du Affricanaidd, Bangladeshaidd a Phacistanaidd yn dal i fod y mwyaf tebygol o fyw mewn tlodi ac amddifadedd, ac – o ystyried effeithiau niweidiol tlodi ar addysg, gwaith ac iechyd – mae teuluoedd yn gallu cael eu cloi i anfantais am genedlaethau. Mae lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod yn ddigartref, cael llai o fynediad at ofal iechyd a chyfraddau uwch o farwoldeb plant, ac mae gan rai grwpiau lai o ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu anfanteision lluosog ar draws gwahanol feysydd bywyd. Maent yn cyflawni canlyniadau is na'r cyfartaledd yn yr ysgol, yn profi anhawster o ran cael mynediad at ofal iechyd, gwaeth iechyd, ac yn aml gyda safonau tai is.

Symud yn ôl ar gyfiawnder a diogelwch personol

Rydym wedi gweld cam clir am yn ôl o ran cyfiawnder a diogelwch personol ers y gwelliannau a welsom yn adolygiad 2015. Mae mynediad at gyfiawnder yn ein galluogi i gyflawni ein hawliau i ryddid a thegwch, ond mae cyfyngiadau ar gymorth cyfreithiol a chyflwyno ffioedd mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth – sydd bellach wedi ei ddiddymu – wedi lleihau gallu pobl i sicrhau unioniad pan droseddir yn erbyn eu hawliau.

Mae'r amodau ar gyfer pobl sydd wedi eu dal yn y carchar hefyd wedi dirywio, gyda gorlenwi mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn creu perygl i ddiogelwch carcharorion ac yn cynyddu achosion o hunan-niweidio ac ymosodiadau mewn carchardai. Rydym yn dal i weld nifer anghymesur o garcharorion o leiafrifoedd ethnig yn y carchardai a'r ystâd dalfeydd ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, er bod llai o bobl ifanc yn y ddalfa. Mae lefelau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol ymysg pobl Dduon yn llawer is nag ar gyfer grwpiau eraill.

Mae'r lefelau o droseddau casineb, trais rhywiol a cham-drin domestig yn peri gofid. Er y gallai cynnydd mewn adroddiadau o drosedd fod o ganlyniad i wella adrodd a chofnodi, mae'r lefel o drais seiliedig ar hunaniaeth yn peri gofid, yn arbennig o ystyried ymadawiad agos Prydain o'r Undeb Ewropeaidd a'r achosion cynyddol o droseddau casineb a welsom yn ystod cyfnod y refferendwm. Roedd y cyfraddau uwch o gam-drin domestig ac ymosodiadau rhywiol a brofwyd gan bobl anabl, pobl LGBT a menywod hefyd yn achosi gofid.

Bylchau yn y data

Rydym wedi gallu creu darlun cynhwysfawr o gydraddoldeb a hawliau dynol i bobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, menywod a dynion. Ond mae bylchau yn y data sydd ar gael i ni yn golygu nad ydym eto'n gwybod cymaint ag yr hoffem am brofiadau grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill. Mae tystiolaeth yn arbennig o brin ar gyfer pobl LGBT, pobl gyda chrefydd neu gred, a menywod beichiog a mamau newydd. Rydym yn croesawu arolwg a chynllun gweithredu LGBT cenedlaethol pwysig y Llywodraeth yn 2018, a byddwn yn parhau i weithio i gau bylchau a gweithio gydag eraill i ysgogi newid wrth baratoi ar gyfer ein hadolygiad diwethaf yn 2021.

Beth sydd angen digwydd nesaf?

Er y cafwyd camau positif mewn rhai meysydd bywyd ar gyfer rhai pobl, mae yna lawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod pawb yn rhydd o wahaniaethu ac yn gallu mwynhau eu hawliau dynol sylfaenol.

I atal y cynnydd mewn tlodi plant ar draws Prydain, dylai'r Llywodraeth ailsefydlu targedau gorfodol o Ddeddf Tlodi Plant 2010 a datblygu strategaeth i fodloni'r rhain. Dylai'r Llywodraeth hefyd gyflawni a chyhoeddi asesiad o effaith gyfunol diwygio treth a lles, a phenderfyniadau gwariant cyhoeddus, ar bobl sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchodedig a'r tlotaf mewn cymdeithas i hysbysu Cyllidebau ac Adolygiadau Gwario cenedlaethol.

Dylai fod ffocws dwys ar wella bywyd ym Mhrydain i bobl anabl. Dylai'r Llywodraeth ddileu ei neilltuad i Erthygl 24, yr hawl i addysg gynhwysol, yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran bodloni ei ymroddiad i gael un filiwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith yn ystod y 10 mlynedd nesaf, ac i gyflwyno'r hawl i weithio'n hyblyg a gwaith rhan amser i helpu cau'r bwlch cyflogaeth a chyflog. Rydym eisiau gweld mwy o bobl anabl yn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a dinesig, ac i'r perwyl hwn dylai pleidiau gwleidyddol sefydlu cronfa i dalu costau atodol ymgeiswyr anabl parthed eu nam neu gyflwr.

Mae yna lawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod pawb yn rhydd o wahaniaethu ac yn gallu mwynhau eu hawliau dynol sylfaenol.

Mae yna angen brys i barhau i adeiladu ar gynnydd i wella profiadau menywod ar draws Prydain. Dylai ysgolion gofnodi a monitro bwlio seiliedig ar ragfarn ac aflonyddu rhywiol er mwyn taclo'r rhain yn effeithiol. I leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, dylai cyflogwyr gynnig pob swydd fel agored i fod yn hyblyg neu weithio rhan amser o'r diwrnod cyntaf ble bynnag fo'n bosibl. Rydym yn gweithio i sefydlu cod ymarfer statudol i ddelio gyda phob math o aflonyddu yn y gwaith. Dylai'r llywodraeth ddilysu a gweithredu Confensiwn Istanbul (Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig).

I wella cyfiawnder a diogelwch personol, dylai'r Llywodraeth asesu effaith toriadau i gymorth c a datblygu cynllun gweithredu i ddelio â diffyg mynediad at gyngor. Rydym angen archwiliad brys 'r rhesymau dros gynnydd mewn hunan-niweidio ac ymosodiadau mewn carchardai, ac fel yr unig wlad yn yr UE sydd heb un ar hyn o bryd, cyflwyno terfyn amser statudol o 28 niwrnod i gadw mewnfudwyr yn y ddalfa. Dylid hefyd cael gweithrediad buan o'r holl argymhellion o Adolygiad Lammy.

Cipolwg yn unig o'n hargymhellion manwl yw hyn – mae yna nifer o rai eraill wedi eu hanelu at, er enghraifft, helpu pobl i gael gwell addysg, i fod yn fwy iach ac i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a'r gymdeithas ehangach – ac mae'r rhain wedi eu hategu gan yr angen am fframwaith cyfreithiol cadarn i ddiogelu hawliau pobl nawr ac wedi Brexit. Rydym yn ymroddedig i weithio gydag eraill i gyflawni newid ystyrlon pellach i sicrhau bod Prydain yn fwy teg i bawb.

Cysylltiadau

—

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan: www.equalityhumanrights.com.

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim.

Gwefan	www.equalityadvisoryservice.com
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 to 19:00 (Llun i Wener)
	10:00 to 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

—
Dylunio: red-stone.com

Ai yw Prydain yn Decach?

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth www.equalityhumanrights.com

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

© 2018 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Hydref 2018

ISBN: 978-1-84206-774-1